# Sut rydym yn defnyddio technoleg yn ddiogel

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



## Rydym yn hyrwyddo pwysigrwydd diogelwch ar-lein.

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu diwylliant lle mae plant a staff yn defnyddio technoleg yn ddiogel. Er mwyn gwneud hyn rydym yn:

- helpu plant i ddatblygu dealltwriaeth o'r byd digidol
- arwain drwy esiampl a modelu ymddygiad diogel
- cynnal safonau proffesiynol
- cefnogi rhieni a gofalwyr i ddeall mwy am ymddygiad ar-lein.

## Rydym yn annog defnydd iach a chadarnhaol o dechnoleg.

Er mwyn cefnogi dysgu, creadigrwydd a chyfathrebu, byddwn bob amser yn:

- defnyddio dyfeisiau gwaith cymeradwy gyda gosodiadau diogelwch priodol
- sicrhau bod apiau a chynnwys yn briodol i oedran
- goruchwylio plant yn ofalus pan fyddant yn defnyddio technoleg.

## Rydym yn parchu preifatrwydd.

Fel y dywed Erthygl 16 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mae gan blant hawl i breifatrwydd. Gyda'n holl ddelweddau a fideos, byddwn yn:

- eu creu a'u rhannu dim ond gyda chaniatâd rhieni
- eu storio'n ddiogel
- dilyn ein canllawiau ar ffotograffiaeth a fideos.

## Angen rhagor o wybodaeth?

Y person sy'n gyfrifol am ddiogelu/amddiffyn plant yn y ddarpariaeth hon yw:



Paratowyd y daflen wybodaeth hon fel rhan o'r *Pecyn cymorth diogelwch ar-lein i ymarferwyr y blynyddoedd cynnar* a bwriedir ei harddangos mewn darpariaethau blynyddoedd cynnar. Mae'r pecyn cymorth yn cefnogi ymarferwyr y blynyddoedd cynnar i gadw plant yn ddiogel pan fyddant yn defnyddio technoleg yn amgylchedd y ddarpariaeth ac mae ar gael yn **https://bit.ly/3iZcKnH**

Mae gwybodaeth am ddiogelwch ar-lein a chymorth i helpu i gadw plant yn ddiogel ar-lein ar gael yn **hwb.llyw.cymru/cadwnddiogelarlein**

© Hawlfraint y Goron 2020